| Enw'r Ymgeisydd *Candidate's Name* | Rhif y Ganolfan *Centre Number* | Rhif yr Ymgeisydd *Candidate Number* |
|---|---|---|
| | | 0 |

TGAU

229/18

# PEILOT CYMRAEG AIL IAITH (CWRS LLAWN)
# *WELSH SECOND LANGUAGE PILOT (FULL COURSE)*
## CYMRAEG YMARFEROL
## *PRACTICAL WELSH*
### GWRANDO A DEALL
### *LISTENING COMPREHENSION*
### HAEN UWCH
### *HIGHER TIER*

A.M. DYDD IAU, 9 Mehefin 2011
*A.M. THURSDAY, 9 June 2011*

Tua 45 munud
*Approximately 45 minutes*

| Rhif y Cwestiwn | Arholwr yn Unig |
|---|---|
| 1 | |
| 2 | |
| 3 | |
| CYFANSWM | |

0229
180001

**DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**

Bydd yn rhaid i chi wrando ar dâp i ateb y cwestiynau yn yr arholiad hwn.

**CYFARWYDDIADAU**

Defnyddiwch inc neu feiro du.
Ysgrifennwch eich enw, rhif y ganolfan a'ch rhif ymgeisydd yn y blychau ar ben y dudalen hon.
Cewch glywed 3 darn yn Gymraeg.
Cewch glywed pob darn dair gwaith.
Cewch gyfle i edrych ar y cwestiynau cyn clywed y darnau am y tro cyntaf a bydd seibiant ar ôl pob darlleniad.
Ar ddiwedd Cwestiwn 3 bydd seibiant o 1 funud pryd y gallwch edrych dros eich atebion i gyd.
Cewch ysgrifennu'r atebion yn eich llyfr atebion unrhyw bryd yn ystod yr arholiad.

**GWYBODAETH**

Nodir y marciau a ddyfernir ar gyfer cywirdeb mynegiant o fewn y cwestiynau fel a ganlyn: [✓= 2] ac ati.

***ADDITIONAL MATERIALS***

*You must listen to a tape in order to answer the questions in this examination.*

***INSTRUCTIONS***

*Use black ink or black ball-point pen.*
*Write your name, centre number and candidate number in the spaces at the top of this page.*
*You will hear 3 passages in Welsh.*
*You will hear each passage three times.*
*You will have an opportunity to look at the questions before listening to each passage for the first time and after all readings there will be a pause.*
*At the end of Question 3 there will be a pause of 1 minute when you can look over all your answers.*
*You may write your answers in the answer book at any time during the examination.*

***INFORMATION***

*Marks awarded for accuracy of expression within the questions are indicated as follows: [✓= 2] etc.*

**TUDALEN WAG**
***BLANK PAGE***

Arholwr yn unig
*Examiner only*

**CWESTIWN 1** *(QUESTION 1)*

Rydych chi'n helpu i drefnu gwaith gwirfoddol i bobl ifanc. Byddan nhw'n teithio dramor i helpu mewn cartref plant yn Ne America. Mae 5 person ifanc wedi gadael eu manylion ar eich peiriant ateb. Nodwch y wybodaeth yn y grid **yn Gymraeg** ar gyfer y panel cyfweld. **Mewn adrannau gyda * cofiwch ddefnyddio geiriau nid rhifau**.
*You are helping to arrange voluntary work for young people. They will travel abroad to help in a children's home in South America. 5 young people have left their details on your answer phone. Note the information in the grid **in Welsh** for the interview panel. **In sections marked * remember to use words not numbers**.*

(15 + ✓ = 15) = **[30]**

| ENW'R PERSON IFANC | * OED | SGÌL ARBENNIG | UNRHYW WYBODAETH ARALL |
|---|---|---|---|
| Huw Matthews | * | Hoffi gweithio gyda chyfrifiaduron | |
| Emma Bowen | Un deg saith | Wedi ennill medal – actores y flwyddyn | |
| Meic Walters | * | | Hoffi garddio a gwaith adeiladu |
| Omar Chicca | Un deg wyth | | |
| Sasha Haf | * | | Wedi bod yno o'r blaen |

0229
180003



**Trosodd.**

Arholwr yn unig
*Examiner only*


**CWESTIWN 2** *(QUESTION 2)*

Rydych chi'n gweithio yn swyddfa'r papur lleol. Mae gohebydd wedi ffonio a gadael penawdau'r prif storïau ar beiriant ateb y swyddfa. Yn anffodus, mae bylchau yn eich copi chi. Rhaid i chi wrando ar y penawdau eto a llenwi'r bylchau yn ofalus **yn Gymraeg**.
*You work in the office of the local paper. A reporter has phoned and left the headlines of the main stories on the office answer phone. Unfortunately there are gaps in your copy. You must listen to the headlines again and fill in the blanks carefully **in Welsh**.*

(15 + ✓ = 15) = **[30]**

| | |
|---|---|
|  | 1. .................................... yn dioddef yn .................................... achos y .................................... sych. |
|  | 2. .................................... yn broblem yn y .................................... yma. .................................... alcohol yn cael y bai. |
|   | 3. .................................... yn aros deg .................................... cyn cael ei gludo i'r .................................... . |
|  | 4. Yn ôl meddygon, .................................... y cant o weithwyr .................................... yn colli eu gwaith achos .................................... tost. |
|   | 5. .................................... i gant a hanner o .................................... wrth i archfarchnad fawr .................................... yn y gogledd. |

Arholwr yn unig
*Examiner only*

| | |
|---|---|
|  | 6. Cantores o Gymru yn .......................................... yn y .......................................... realiti ........................................... |
|  | 7. .......................................... westy o Gymru ar restr y .......................................... gwesty .......................................... ym Mhrydain. |
|  | 8. Tîm .......................................... Caerdydd yn .......................................... chwaraewr am bedair .......................................... o bunnoedd. |
|  | 9. Seiclwyr Cymru yn gobeithio ......................................................... medalau ......................................................... yn y Gemau Olympaidd yn .......................................... . |
|  | 10. A dyma'r tywydd – .......................................... trwm drwy'r wlad yn syrthio fel .......................................... dros fynyddoedd y .......................................... . |



**Trosodd.**

Arholwr yn unig
*Examiner only*

**CWESTIWN 3** *(QUESTION 3)*

Rydych chi'n aelod o Bwyllgor Rhieni Athrawon yr ysgol leol. Mae'r cadeirydd wedi gadael manylion y cyfarfod diwethaf ar eich peiriant ateb. Rydych chi wedi cytuno i ysgrifennu cofnodion y cyfarfod. **Mewn adrannau gyda * cofiwch ddefnyddio geiriau nid rhifau**.
*You are a member of the Parent Teacher Committee at the local school. The chairperson has left details of the last meeting on your answer phone. You have agreed to write up the minutes of the meeting.* ***In sections marked * remember to use words not numbers.***

(20 + ✓ = 20) = **[40]**

**PWYLLGOR**
**RHIENI ATHRAWON**

**Adran A**

COFNODION PWYLLGOR

* Dyddiad y Cyfarfod: ..........

Lleoliad: ..........

* Amser y cyfarfod: ..........

* Nifer o bobl yn bresennol: ..........

Ymddiheuriadau: ..........

**Adran B**

Yr Agenda

Pwynt 1 ..........

Pwynt 2 ..........

Pwynt 3 ..........

**Adran C**

Atebion a'r Ffordd Ymlaen

Pwynt 1

1 ..........

2 ..........

Pwynt 2

1 ..........

2 ..........

Pwynt 3

1 ..........

2 ..........

**Adran Ch**

* Dyddiad y cyfarfod nesaf: .......... * Amser: ..........

Lleoliad: .......... * Ystafell: ..........

**TGAU**

229/18-A

# PEILOT CYMRAEG AIL IAITH (CWRS LLAWN)
# *WELSH SECOND LANGUAGE PILOT (FULL COURSE)*

## CYMRAEG YMARFEROL
## *PRACTICAL WELSH*

**GWRANDO A DEALL**
***LISTENING COMPREHENSION***

**HAEN UWCH**
***HIGHER TIER***

**COPI'R ATHRO/ATHRAWES**
***TEACHER'S COPY***

**SGRIPT TÂP**
***TAPE TRANSCRIPT***

A.M. DYDD IAU, 9 Mehefin 2011
*A.M. THURSAY, 9 June 2011*

Tua 45 munud
*Approximately 45 minutes*

0229
18A001

Mae'r arholiad cyfan gan gynnwys y seibiannau wedi ei amseru ar y tâp. Ni ddylid stopio'r tâp hyd nes bydd yr arholiad wedi gorffen.

*The whole examination including the pauses has been timed on the tape. The tape should not be stopped until the end of the examination.*

**Cwestiwn 1**

Rydych chi'n helpu i drefnu gwaith gwirfoddol i bobl ifanc. Byddan nhw'n teithio dramor i helpu mewn cartref plant yn Ne America. Mae 5 person ifanc wedi gadael eu manylion ar eich peiriant ateb.
*You are helping to arrange voluntary work for young people. They will travel abroad to help in a children's home in South America. 5 young people have left their details on your answer phone.*

Saib (½ munud)

Gwrandewch ar y negeseuon, yna nodwch y manylion **yn Gymraeg** ar y grid ar gyfer y panel cyfweld.
*Listen to the messages, then note the details* ***in Welsh*** *on the grid for the interview panel.*

- Shwmae. Huw Matthews yma. Dw i eisiau helpu yn y cartref plant. Dw i'n **un deg naw oed**. Mae sawl sgìl gyda fi, yn cynnwys gweithio gyda chyfrifiaduron. Hefyd dw i'n **gweithio'n dda mewn tîm**.

  Saib (¼ munud)

- Bore da. F'enw i ydy Emma Bowen. Dw i'n byw yn Wrecsam a dw i'n un deg saith oed. Dw i wedi ennill medal actores y flwyddyn yn y sir eleni. Hefyd dw i'n **helpu mewn clwb plant bob wythnos**. Bydd **De America yn brofiad anhygoel**.

  Saib (¼ munud)

- Helo. Meic Walters sy'n siarad. Dw i'n **ddau ddeg oed**. Hoffwn i ddod gyda chi. Mae **tystysgrif cymorth cyntaf** gyda fi. Dw i'n helpu yn yr ysbyty leol. Hefyd dw i'n hoffi garddio a gwaith adeiladu.

  Saib (¼ munud)

- Prynhawn da. Omar Chicca ydw i. Dw i'n un deg wyth oed a dw i'n gallu **siarad Ffrangeg a Sbaeneg**. Dw i'n rhugl. Hefyd **person hapus** ydw i – **hapus a gweithgar**. Bydd **helpu yn Ne America yn wych**.

  Saib (¼ munud)

- Shwmae! Sasha Haf ydy f'enw i. Hoffwn i ddod gyda chi. Dw i'n **dda iawn gyda gwaith coed**. Hefyd dw i wedi bod yno o'r blaen. O ie, dw i'n **ddau ddeg un oed**. Hwyl nawr.

  Saib (½ munud)

  Gwrandewch ar y negeseuon eto.
  *Listen to the messages again.*

  Saib (½ munud)

  Gwrandewch ar y negeseuon ar y tro olaf.
  *Listen to the messages for the last time.*

  Saib (½ munud)

**Cwestiwn 2**

Rydych chi'n gweithio yn swyddfa'r papur lleol. Mae gohebydd wedi ffonio a gadael penawdau'r prif storïau ar beiriant ateb y swyddfa. Yn anffodus, mae bylchau yn eich copi chi. Astudiwch y penawdau ar dudalen 4 a 5.
*You work in the office of the local paper. A reporter has phoned and left the headlines of the main stories on the office answer phone. Unfortunately there are gaps in your copy. Study the headlines on pages 4 and 5.*

Saib (½ munud)

Gwrandewch ar benawdau'r newyddion, yna llenwch y bylchau yn y penawdau sydd o'ch blaen gyda'r wybodaeth berthnasol **yn Gymraeg**.
*Listen to the news headlines, then fill the gaps in the headlines in front of you with the relevant information* ***in Welsh****.*

1. **Miloedd** yn dioddef yn **Affrica** achos y **tywydd** sych.
2. **Goryfed** yn broblem yn y **wlad** yma. **Pris** alcohol yn cael y bai.
3. **Ffermwr** yn aros deg **awr** cyn cael ei gludo i'r **ysbyty**.
4. Yn ôl meddygon, **pymtheg** y cant o weithwyr **Cymru** yn colli eu gwaith achos **cefn** tost.
5. **Gwaith** i gant a hanner o **bobl** wrth i archfarchnad fawr **agor** yn y gogledd.
6. Cantores o Gymru yn **ail** yn y **rhaglen** realiti **fawr**.
7. **Dau** westy o Gymru ar restr y **deg** gwesty **gorau** ym Mhrydain.
8. Tîm **pêl-droed** Caerdydd yn **prynu** chwaraewr am bedair **miliwn** o bunnoedd.
9. Seiclwyr Cymru yn gobeithio **ennill** medalau **aur** yn y Gemau Olympaidd yn **Lloegr**.
10. A dyma'r tywydd – **glaw** trwm drwy'r wlad yn syrthio fel **eira** dros fynyddoedd y **gogledd**.

Saib (½ munud)

Dyma'r penawdau eto.
*Here are the headlines again.*

Y penawdau fel uchod.

Saib (½ munud)

Dyma'r penawdau am y tro olaf.
*Here are the headlines for the last time.*

Y penawdau fel uchod.

Saib (½ munud)

**Trossodd.**



0229
18A003

**Cwestiwn 3**

Rydych chi'n aelod o Bwyllgor Rhieni Athrawon yr ysgol leol. Mae'r cadeirydd wedi gadael manylion y cyfarfod diwethaf ar eich peiriant ateb. Rydych chi wedi cytuno i ysgrifennu cofnodion y cyfarfod.
*You are a member of the Parent Teacher Committee at the local school. The chairperson has left details of the last meeting on your answer phone. You have agreed to write the minutes of the meeting.*

Saib ( ½ munud)

Gwrandewch ar y neges, yna ysgrifennwch y cofnodion **yn Gymraeg** ar gyfer aelodau'r pwyllgor.
*Listen to the message, then write the minutes **in Welsh** for the committee members.*

Diolch am gytuno i ysgrifennu'r cofnodion. Roedd y cyfarfod ar Ebrill tri deg yn Neuadd y Sir. Dechreuodd am wyth o'r gloch. Roedd yn noson dda. Roedd un deg pedwar person yno. Rhif da iawn. Dim ond un ymddiheuriad wedyn, Elen Williams.

Nawr, cwblhewch Adran A
*Now, complete Section A*

Saib (½ munud)

Yn iawn. Nawr, roedd tri phwynt ar yr agenda. Yn gyntaf roedd profiad gwaith blwyddyn deg. Mae'r profiad yma mor bwysig i'r bobl ifanc. Wedyn roedd y problemau gyda'r parcio ger mynedfa'r ysgol. Mae hyn yn broblem fawr erbyn hyn. Yn olaf wedyn, roedd cyngerdd enillwyr Eisteddfod yr Urdd – noson arbennig iawn bob tro.

Nawr, cwblhewch Adran B
*Now, complete Section B*

Saib (½ munud)

Reit, nawr mae'n rhaid ysgrifennu'r atebion a'r ffordd ymlaen ar gyfer pob pwynt.

Felly pwynt un – profiad gwaith blwyddyn deg. Rydyn ni wedi cytuno ar y dyddiad, sef Medi 24. Hefyd bydd cyfarfod i'r rhieni ym mis Mai – Mai 28 am hanner awr wedi saith. Dim ond un broblem sydd – fydd dim help gyda'r costau eleni. Dydy hyn ddim yn bosibl ar hyn o bryd.

Yr ail bwynt wedyn, sef y problemau gyda'r parcio. Yn anffodus mae rhieni yn parcio ger maes parcio'r bysys. Mae'n beryglus ac yn boen. Bydd arwyddion newydd yno wythnos nesaf. Hefyd mae Mrs Owen wedi ysgrifennu llythyr at y papur lleol i gwyno am y broblem.

Ac yn olaf felly. Noson enillwyr yr Urdd. Cafodd yr ysgol lwyddiant arbennig yn yr Urdd eleni gan ennill gyda'r adrodd a'r ddawns. Hefyd daeth y gerddorfa yn ail. I fod yn onest aeth saith deg disgybl o'r ysgol i'r Eisteddfod i gystadlu. Felly, rydyn ni wedi penderfynu helpu i drefnu cyngerdd i'r enillwyr. Hefyd bydd lluniau yn y papur ac mae Glyn Davies yn mynd i siarad am y profiad ar y radio.

Nawr, cwblhewch Adran C
*Now, complete Section C*

Saib (½ munud)

Yn olaf wedyn, bydd eisiau manylion y cyfarfod nesaf. Byddwn ni'n cwrdd ym mis Mehefin, Mehefin deg yn Ysgol yr Hendre. Chwarter wedi wyth fydd yr amser y tro nesaf a byddwn ni yn ystafell tri. Mae ystafell tri ar bwys ystafell y pennaeth. Diolch eto i chi am eich help. Hwyl nawr. Ffoniwch os oes problem.

Nawr, cwblhewch Adran Ch
*Now, complete Section Ch*

Saib (½ munud)

Dyma'r neges eto.
*Here's the message again.*

Y neges fel uchod.

Saib (½ munud)

Dyma'r neges am y tro olaf.
*Here's the message for the last time.*

Y neges fel uchod.

Saib (1 funud)

A dyna ddiwedd y prawf. Bydd eich llyfrau ateb yn cael eu casglu nawr.
*That is the end of the test. Your answer papers will now be collected.*